Cofnodion Cyfarfod o PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD a gynhaliwyd yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell dros fideo gynadledda ar ddydd Gwener 24 Mawrth 2023

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Elizabeth Evans (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Endaf Edwards, Gwyn James, Gareth Lloyd, Caryl Roberts a Mark Strong

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorwyr Euros Davies, Rhodri Evans a Wyn Thomas

Swyddogion a oedd yn bresennol: Lowri Edwards a Nia Jones

(10.00am - 11.20am)

1 Ymddiheuriadau
Dim.

2 Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu
Dim.

3 Cofnodion y cyfarfod blaenorol ac i ystyried unrhyw faterion sy'n codi
PENDERFYNWYD cadarnhau cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2022 yn rhai cywir.

Nid oedd materion yn codi.

4 Adroddiad ar arolwg Aelodau o ran gofynion TGCh
Bu i Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol Gwasanaethau Democrataidd gyflwyno'r adroddiad i'r Pwyllgor gan nodi y derbyniwyd 15 o ymatebion, sy'n cyfateb i 39% o holl Aelodau. Nodwyd yr aed i'r afael â phob cais am hyfforddiant ychwanegol ac ystyriwyd sylwadau am gyfarpar ychwanegol.

Nodwyd siom gan Aelod taw dim ond 15 o aelodau wnaeth ymateb i'r arolwg, yn ogystal a siom taw'r angen am 4G pan oeddent yn gweithio oddi cartref neu o'r swyddfa a'r angen am ail rif ffôn i rannu bywyd gwaith a chartref oedd y prif ymatebion.

Bu i Aelodau nodi fod lwfans misol o £10 ar gael os hoffent fod yn rhan ohono, a'i fod yn bosib prynu *Dongle* 4G am £11, a rhif ffôn gyda chontract am oddeutu £7.40 y mis a fydd yn medru mynd i'r afael â'u pryderon.

Roedd Aelodau o'r farn y dylai darpariaeth TGCh gael ei hadolygu cyn yr etholiadau nesaf er mwyn sicrhau y cyflawnir anghenion Cynghorwyr gan ystyried gwelliannau technolegol yn y dyfodol.

NODWYD yr Adroddiad gan y Pwyllgor.

5 Adroddiad ar arolwg Aelodau am amseriad cyfarfodydd
Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor gan Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol yn nodi ei fod yn ofyniad statudol i gynnal arolwg ar amseriad cyfarfodydd a pha mor aml y dylid eu cynnal gan fod y bydd angen ystyried anghenion ac amgylchiadau holl Aelodau.

Nodwyd bod 25 Aelod wedi ymateb i'r adroddiad a'i fod yn glir bod y mwyafrif yn ffafrio dydd Iau, Dydd Mawrth a dydd Mercher, yn y drefn yma ar gyfer mynychu cyfarfodydd. Dydd Gwener a dydd Llun oedd y diwrnodau na ffafriwyd fwyaf. Nodwyd cyn COVID-19, yr amser arferol i ddechrau cyfarfodydd oedd 9.30am fodd bynnag roedd y mwyafrif o'r sawl wnaeth ymateb wedi nodi y byddai'n well ganddynt parhau i ddechrau am 10.00am ar gyfer yr holl gyfarfodydd a chyfarfod y Cyngor.

Dywedodd y Cynghorydd Elizabeth Evans fod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r Pwyllgor Trwyddedu ar hyn o bryd yn dechrau am 9.30am ac y bydd bellach angen iddynt newid i fod yn unol â'r cyfarfodydd eraill. Nodwyd ganddi hefyd y bydd dechrau cyfarfodydd y prynhawn am 1.30pm yn amser gwell am y byddai'n gwella trefniadau gofal plant i'r rheiny sydd â'r cyfrifoldeb hynny.

Caiff adroddiad ei gyflwyno i'r Cyngor yn amlinellu canfyddiadau'r arolwg a'r argymhellion o ran amseriad y cyfarfodydd.

6 Adroddiad ar Arolwg Arfarnu Blynyddol Aelodau

Cyflwynodd Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol Gwasanaethau Democrataidd adroddiad i'r Pwyllgor yn nodi ei fod yn ofyniad statudol i ddarparu Arolwg Arfarnu blynyddol o hyfforddiant ac anghenion datblygu Aelodau. Nodwyd fod 8 Aelod wedi ymateb i'r arolwg, ac edrychir ar hyn o bryd ar feysydd a glustnodwyd ar gyfer hyfforddiant a datblygiad pellach. Bydd yr unigolion yma felly yn cael cynnig cyfle i gael cyfweliad gydag unigolyn sydd ym marn yr awdurdod yn meddu ar cymwysterau perthnasol i ddarparu cyngor am anghenion hyfforddiant a datblygu yr Aelod dan sylw.

Nodwyd gan Aelodau fod nifer yr ymatebion yn isel, ac argymhellwyd y dylid copi hyn gydag Arweinwyr y pleidiau.

NODWYD yr Adroddiad gan y Pwyllgor.

7 Adroddiad ar Restr Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau 2023/24

Bu i Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Democrataidd gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor yn nodi nad oedd newidiadau sylweddol i Restr Cydnabyddiaeth Ariannol 2023-24. Dywedodd y bydd y cyfog sylfaenol i aelodau etholedig yn cynyddu o £16,800 i £17,600, gan bwysleisio nad oes gan y Cyngor unrhyw ddisgresiwn ar y lefelau a osodwyd gan y Panel Cydnabyddiaeth Ariannol Annibynnol. Bydd unrhyw Aelodau Unigol a hoffai wrthod y cynnydd mewn cyflog gyfleu'r bwriad hynny'n ysgrifenedig, fodd bynnag ni all y Cyngor yn ei gyfanrwydd na grŵp o Gynghorwyr wneud hynny.

Mae elfennau dewisol i'r adroddiad. Nodwyd nad oedd unrhyw argymhellion fyddai'n galluogi Cynghorwyr i hawlio am gostau teithio ar gyfer gwaith o fewn eu wardiau; nac ychwaith argymhellion am y lwfans teithio, aros dros na a lwfans parcio car fydd yn parhau yr un fath â 2022/23. Bydd y gallu i ddewis derbyn y lwfans misol o £10 ar gyfer galwadau ffôn, band llydan ac unrhyw gostau postio yn parhau yr un fath; ac argymhellir fod yr uchafswm o

10 diwrnod llawn ar gyfer pob Pwyllgor y bydd Aelodau Cyfetholedig yn eistedd arno'n parhau.

Nodwyd fod hon yn flwyddyn eithriadol i Aelodau Cyfetholedig yn sgil yr hyfforddiant a chefnogaeth ychwanegol yn ystod eu blwyddyn gyntaf mewn swydd, fodd bynnag rhagwelir y bydd hyn yn gwella yn ystod y blynyddoedd sy'n dilyn.

Dywedwyd y bydd y trefniadau ar deithio y tu allan i'r sir yn parhau ac y cymeradwywyd 99% o'r holl geisiadau yn ystod y flwyddyn gyfredol am eu od o fudd i'r Cyngor fod cynrychiolaeth.

Caiff Adroddiad Blynyddol IRPW 2023 a Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau drafft 2023/24 eu cyflwyno i'r Cyngor ar 20 Ebrill 2023.

8 Adrodddiad ar Ganlyniadau Arolwg Gadael Aelodau

Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor gan Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol Gwasanaethau Democrataidd a oedd yn cynnwys y canlyniadau fod Ceredigion ar y cyfan yn unol â'r cyfartaledd dros Gymru. Nodwyd taw'r ymateb moddol ar gyfer nifer y blynyddoedd a dreuliwyd yn rôl Cynghorydd yw 21-25 mlynedd, sy'n cyfateb i 4-5 tymor yn y swydd. Roedd nifer yr oriau a dreuliwyd ar gyfartaledd yn y rôl, gan gynnwys llwyth gwaith cymunedol yn cyfateb i 23.4 awr yr wythnos.

Nodwyd gan Aelodau y nifer cynyddol o oriau a oedd yn gysylltiedig â chyfarfodydd sefydliadau allanol megis yr Heddlu, Iechyd a'r Gwasanaeth Tân, a diolchwyd Aelodau blaenorol am eu hamser a'u hymrwymiad wrth wasanaethu Cyngor Sir Ceredigion.

NODWYD yr adroddiad gan y Pwyllgor.

9 Blaenraglen Waith

Bu i Aelodau nodi'r adroddiadau a argymhellwyd ar gyfer y Blaen Raglen Waith, a nodwyd fod canllawiau drafft bellach wedi dderbyn o ran Deddf Etholiadau a Llywodraeth Leol (Cymru) 2021, ac y bydd adroddiadau ychwanegol yn codi o hyn.

10 Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Pwyllgor

Bu i Aelodau nodi eu pryderon am y broblem barhaus o'r sain yn darfod yn ystod cyfarfodydd gan nodi fod hyn yn digwydd erbyn hyn am gyfnod estynedig o amser o oddeutu 5 – 6 eiliad. Sicrhawyd Aelodau bod y mater yma dan sylw ar hyn o bryd a bod trafodaethau'n parhau gyda TGCh.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar Dydd Gwener, 26 Mai 2023

Cadeirydd: _____

Dyddiad: _____